# Y PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI

## EFFAITH POLISI CYFLE CYFARTAL AR BRYNU AC ADEILADU GAN LYWODRAETH LEOL

## DIBEN

1. Rhoi cyngor ar sut y mae polisi cyfle cyfartal yn effeithio ar brynu ac adeiladu gan lywodraeth leol.

## CEFNDIR

2. Yn y cyfarfod o Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 20 Mehefin 2001 (LGH 09 01), ystyriodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ar y fenter "Ailfeddwl am Adeiladu". Croesawodd y Pwyllgor yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed hyd yma yn codi ymwybyddiaeth ac yn rhoi egwyddorion "Ailfeddwl am Adeiladu" ar waith yn y sector cyhoeddus.

3. At hynny, yn ôl cofnodion y cyfarfod, awgrymwyd y dylid ymestyn unrhyw bolisi cyfle cyfartal a gyhoeddir ar gyfer llywodraeth leol ynghylch caffael adeiladu i gynnwys y sector preifat.

4. Yn y cyd-destun hwn, ymgymerodd y Gweinidog i gyflwyno papur ar effaith polisi cyfle cyfartal ar brynu ac adeiladu gan lywodraeth leol.

## Y FFRAMWAITH CYFREITHIOL

5. Yn ôl y Deddfau Gwahaniaethu ar sail Hil, Rhyw ac Anabledd mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu ar sail hil, rhyw neu anabledd mewn cyflogaeth neu wrth ddarparu gwasanaethau.

6. Mae'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol, fel y'i diwygiwyd yn ddiweddar, yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried yr angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol, wrth gyflawni eu swyddogaethau. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") ac awdurdodau lleol yn gyrff cyhoeddus at y diben hwn. Mae'r ddyletswydd yn y Ddeddf, a ddaeth i rym ym mis Rhagfyr 2001, wedi'i hategu gan y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol. Mae goblygiadau'r ddyletswydd hon ar gyfer cyrff cyhoeddus megis awdurdodau lleol yn cael eu harchwilio ymhellach isod.

7. O ganlyniad i Gyfarwyddeb y CE, disgwylir deddfwriaeth gwrthwahaniaethu y flwyddyn nesaf mewn perthynas â thueddiad rhywiol a chrefydd/cred yng nghyd-destun gwaith.

8. Yn fwy penodol o safbwynt mater prynu ac adeiladu gan lywodraeth leol, gwnaeth y Cynulliad orchymyn eleni o dan adrannau 19 a 29 Deddf Llywodraeth Leol 1999, i alluogi awdurdodau lleol i wneud rhai ystyriaethau anfasnachol penodol wrth ddyfarnu contractau gwaith neu gyflenwadau cyhoeddus. Mae copi o'r adroddiad yn **Atodiad 1**. Ei effaith yw galluogi awdurdodau lleol i ystyried amodau gwaith gweithlu'r contractwyr, ac ymddygiad contractwyr neu eu gweithwyr mewn anghydfodau diwydiannol. Mae'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau yn disgwyl bod mewn sefyllfa cyn bo hir i gyhoeddi canllawiau o dan adran 19 o Ddeddf 1999, yn rhoi cyngor ar sut y gall awdurdodau lleol ystyried materion yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys cyfle cyfartal, wrth ddyfarnu contractau. Mae drafft diweddaraf y canllawiau hyn wedi'i atodi yn **Atodiad 2**.

## YR UNED CYDRADDOLDEB

9. Mae'r Uned Cydraddoldeb, a sefydlwyd yn ddiweddar fel rhan o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, yn chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu polisi cyfle cyfartal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru. Caiff yr Uned, o dan arweiniad Naomi Alleyne, ei hariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Lleol Cymru.

10. Mae'r Uned yn cefnogi datblygiad arfer gorau o ran cyfle cyfartal mewn llywodraeth leol yng Nghymru, ac mae'n weithredol iawn yn hyrwyddo ac yn cynnig cyngor ar y Safon Cydraddoldeb newydd. Un arall o dasgau allweddol yr Uned Cydraddoldeb yw asesu pa mor dda yr ymdrinnir â materion cydraddoldeb o fewn fframwaith dangosyddion perfformiad llywodraeth leol, ac awgrymu gwelliannau os yw'n briodol.

## Y SAFON CYDRADDOLDEB I LYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU

11. Datblygwyd y Safon Cydraddoldeb i Lywodraeth Leol fel offeryn ymarferol i gynorthwyo awdurdodau lleol i gynnwys eu hymagwedd at gydraddoldeb o ran cyflwyno gwasanaethau ac o ran cyflogaeth fel rhan ganolog ac i feincnodi hynny. Bydd:

- Yn darparu fframwaith systematig ar gyfer cynnwys cydraddoldeb fel rhan ganolog
- Yn helpu awdurdodau lleol i gwrdd â'u hymrwymiadau o dan y ddeddf
- Yn integreiddio polisïau ac amcanion cydraddoldeb gyda Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella
- Yn annog datblygiad arferion gwrthwahaniaethol sy'n briodol i amgylchiadau lleol
- Yn darparu ymagwedd systematig ar gyfer gwella perfformiad, dros amser.

12. Mae'r Safon yn nodi rhestr wirio fesul lefel, gan gwmpasu pob agwedd ar lunio polisïau,

cyflwyno gwasanaethau a chyflogaeth. Bydd angen amser ac adnoddau, ynghyd ag ymrwymiad ar bob lefel o'r sefydliad, er mwyn rhoi'r systemau yn eu lle a monitro ac archwilio'r cynnydd drwy'r lefelau yn ystyrlon.

13. Mae Lefel 2 y Safon yn datgan y dylai adolygiad o'r gwasanaethau gynnwys y swyddogaeth gaffael a'r holl wasanaethau a gontractiwyd a threfniadau partneriaeth. Mae lefelau pellach o'r Safon yn ychwanegu at yr ymrwymiad hwn ac yn esbonio pa gamau sy'n ofynnol i gwrdd â'r amcan hwn. Er enghraifft, mae lefel 3 yn datgan bod asiantaethau sy'n cyflwyno gwasanaethau ar ran yr awdurdod lleol yn cynnwys o fewn contractau i gyflwyno gwasanaeth effeithiol a phriodol, yn deg a heb wahaniaethu'n anghyfreithlon.

14. Er nad yw'r Safon yn orfodol ar hyn o bryd, mae llawer o awdurdodau lleol eisoes wedi mynegi diddordeb mewn mabwysiadu'r Safon ac mae rhai wedi cyfeirio at y Safon yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Hiliol fel dull hefyd o gydymffurfio â'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio). Bydd yr Uned Cydraddoldeb yn gweithio i helpu a chefnogi awdurdodau lleol i weithredu'r fframwaith y mae'r Safon yn ei argymell er mwyn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau cyfreithiol ac fel dull o gyflawni arfer gorau o ran cydraddoldeb.

15. Mae crynodeb o gynnwys y Safon Cydraddoldeb yn **Atodiad 3**.

**EFFAITH DEDDF CYSYLLTIADAU HILIOL (DIWYGIO) 2000**

16. Wrth gyflwyno'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) rhoddwyd dyletswydd statudol ar gyrff cyhoeddus penodedig i:

- Diddymu gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail hil
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

17. Nod y ddyletswydd yw gwneud hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn ganolog i'r ffordd y mae awdurdodau cyhoeddus yn gweithio. Dylai hyn hefyd wella'r ffordd y mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno i bawb ac mae'r awdurdodau cyhoeddus yn gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau cyffredinol a phenodol o dan y Ddeddf.

18. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol wedi rhoi cyngor yn eu Cod Ymarfer ynghylch lle mae'r cyfrifoldeb yn gorwedd o ran cydymffurfio â'r Ddeddf, pan fydd cytundeb â chwmni preifat neu fudiad gwirfoddol i gyflawni unrhyw un o swyddogaethau'r corff cyhoeddus lle mae'r ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol yn berthnasol. Bydd y cyfrifoldeb dros gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol, ac unrhyw ddyletswyddau penodol sy'n berthnasol i'r swyddogaeth honno, yn gorwedd gyda'r awdurdod cyhoeddus. Fodd bynnag, os yw'r dyletswyddau'n

berthnasol i'r swyddogaeth sy'n cael ei chontractio allan, gall fod yn briodol i gynnwys y dyletswyddau hynny ymysg y gofynion perfformiad ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth. Ni fyddai hyn yn cynnwys gofynion yn ymwneud ag arferion mewnol y contractiwr, a pha gamau bynnag y bydd yr awdurdod yn eu cymryd yn hyn o beth, mae'n rhaid iddo fod yn gyson â'r fframwaith polisi a chyfreithiol ar gyfer caffaeliad cyhoeddus.

19. Gall fod hefyd y bydd yr awdurdodau, wrth gyflawni eu dyletswydd gyffredinol, yn hyrwyddo cydraddoldeb hil drwy annog contractwyr i lunio polisïau a fydd yn eu helpu (y contractwyr) i osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon a hyrwyddo cyfle cyfartal. Unwaith y bydd contractau wedi'u dyfarnu, dim ond o fewn fframwaith gwirfoddol y dylid cael anogaeth o'r fath, yn hytrach na thrwy wneud meini prawf neu amodau penodol yn rhan o'r broses ddethol. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus gofio nad yw'r ddyletswydd gyffredinol yn mynd y tu hwnt i ddeddfau neu reoliadau eraill ar gaffael cyhoeddus.

## ROL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

20. Er bod gan awdurdodau lleol, fel cyrff a etholwyd yn ddemocrataidd, gyfrifoldeb dros faterion cydraddoldeb mewn llywodraeth leol, mae gan y Cynulliad rôl i ddatblygu cyfle cyfartal a all gael effaith bellgyrhaeddol yng Nghymru.

21. O dan adrannau 48 a 120 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, mae gan y Cynulliad ddyletswydd i roi ystyriaeth ddyledus i egwyddor cyfle cyfartal **i bawb**, boed hynny wrth gynnal ei fusnes ac wrth ymarfer ei swyddogaethau.

22. Sefydlwyd Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad i archwilio trefniadau'r Cynulliad yn hyrwyddo egwyddor cyfle cyfartal i bawb wrth arfer ei swyddogaethau a chynnal ei fusnes. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried materion cyfle cyfartal.

23. Nid yw'r Cynulliad yn asiantaeth orfodi, ac nid oes ganddo'r pwer i orfodi rhwymedigaethau cydraddoldeb trydydd partïon (soniodd y Cwnsler Cyffredinol am y pwynt hwn mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal ar 17 Ionawr 2001). Fodd bynnag, ni all y Cynulliad gontractio allan o'i ddyletswyddau ei hunan ar gyfle cyfartal, ac mae angen iddo gofio am y dyletswyddau hyn pan fydd yn ymrwymo i gontractau ag eraill er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

24. Un o swyddogaethau'r Cynulliad yw ariannu llywodraeth leol. Mae'r ffaith fod y Cynulliad yn ariannu'r Uned Cydraddoldeb yn rhannol yn un ffordd o hyrwyddo cyfle cyfartal yng nghyd-destun llywodraeth leol.

25. Yn gyffredinol, mae'r Cynulliad a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn mabwysiadu ymagwedd o bartneriaeth i hyrwyddo cyfle cyfartal, p'un a fydd hynny mewn llywodraeth leol neu rywle arall. Mae Bord Gron y Sector Cyhoeddus yng Nghymru ar Gydraddoldeb, o dan gadeiryddiaeth Edwina Hart AC fel y Gweinidog dros Gyfle Cyfartal, yn dod â chynrychiolwyr ynghyd o ystod eang o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a'i Huned Cydraddoldeb.

26. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymryd camau penodol i hyrwyddo arfer gorau o ran adeiladu yn y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys mewn llywodraeth leol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi Adroddiad Egan 1988 Llywodraeth y DU, sef "Ailfeddwl am Adeiladu", a gafodd ei ystyried gan y Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 20 Mehefin y llynedd. Rhan o ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i weithio'n agosach gyda'i bartneriaid yn yr awdurdodau lleol yw hyrwyddo arfer gorau o ran caffael adeiladu. I gefnogi hyn, ysgrifennodd y Gweinidog dros Lywodraeth Leol, Cyllid a Chymunedau at yr holl Brif Weithredwyr ac Arweinwyr awdurdodau lleol ym mis Medi 2001, yn amgáu copïau o "Toolkit" y Tasglu Llywodraeth Leol ar Ailfeddwl am Adeiladu, gan argymell ei ddefnyddio i helpu gyda chaffael adeiladu yn effeithiol. Mae copi o'r llythyr yn **Atodiad 4.** Mae crynodeb o Bolisïau a Chanllawiau Caffael Adeiladu, sy'n berthnasol i lywodraeth leol, yn **Atodiad 5.**

**CRYNODEB**

27. Mae llywodraeth leol a'r Cynulliad eisoes yn gweithio mewn partneriaeth i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn llywodraeth leol.

28. Drwy Ford Gron y Sector Cyhoeddus yng Nghymru, bydd cyfleoedd i barhau â'r trafodaethau gyda phartneriaid sector cyhoeddus, gan gynnwys Uned Cydraddoldeb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac i hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.

29. Mae'r prif gyfrifoldeb dros hyrwyddo cyfle cyfartal mewn llywodraeth leol, gan gynnwys o ran prynu ac adeiladu, yn gorwedd gyda'r awdurdodau eu hunain. Ymddengys bod y Safon Cydraddoldeb yn offeryn effeithiol er mwyn sicrhau yr ymdrinnir â materion cyfle cyfartal a'u bod yn cael eu datblygu gan awdurdodau lleol.